# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 2 Tachwedd 2020 am 7yh.

1. Cyfarfod Rhithwith drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
   *Huw Edwards (Cadeirydd), Aled Morris Jones, Rhian Hayes, Wendy Morris Griffiths, Gwilym Morris*

3. Ymddiheuriadau
   *Debra Griffiths, Dafydd Jones, Carol Anne Jones, Cyng Richard Griffiths, Cyng Richard Jones.*

4. Datgan Diddordeb
   *Dim*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 5 Hydref 2020
   *Derbynwyd y cofnodion yn gywir gan GM, AMJ yn eilio.*

6. **Materion yn codi**

   i. Cydymdeimlad dwys i holl deulu Mr Glyn Jones, Talar Wen, Rhosybol
   Cyn-aelod o Gyngor Cymuned Rhosybol.
   *Cerdyn cydymdeimlo wedi ei yrru gan y cyngor cymuned i'r teulu.*

   ii. Lon Gefn Rhosybol
   Cwynion am or yrru ar hyd y lon.
   AMJ wedi bod mewn cysylltiad gyda'r heddlu, Heddlu yn gofyn i drigolion am fanylion pellach.
   Angen dyddiadur o syn bosib gyda manylion, amseroedd a manylion y cerbydau.
   Heddlu am yrru swyddogion i'r ardal i agdw golwg ar y sefyllfa.

   *RH am ofyn am fwy o fanylion gan cymdogion fel fod cofnod yn cael ei basio i'r heddlu. RH yn diolch i AMJ am drefnu gyda'r heddlu.*

   iii. Ymghyngoriad cyhoeddus canllawiau cynllunio
   -Cyfleusterau a llety i Dwristiaeth (rhan 4.6 a paragraff 6.2.1)
   -Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu

   Cyfle i rhoi barn ar y canllawiau hyd at 27 Tachwedd 2020.
   Gwybodaeth ar y linc isod:
   www.ynysmon.gov.uk/cca

   iv. Archwiliad Blwyddyn yn diweddaru 31 Mawrth 2019

   Materion yn cael ei codi gan yr archwiliad:
   -Gwefan
   -Argymhellion yr Archwilydd Mewnol

-Blwch 12 ar y ffurflen wedi ei adael yn wag
Datganiad Llywodraethol Blynyddol rhan 2
Gorchmynion Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

ME wedi derbyn y ffurflen yn ol ac angen llenwi'r blychau i mewn
-Gwefan angen ei adnewyddu gyda fwy o fanylion ynghlyn a'r Cynghorwyr, hefyd pwy ydy'r cadeirydd ac is Cadeirydd
-Archwiliwr mewnol wedi nodi nad oedd proses o cyllideb digonol wedi ei wneud i gysidro praesept 2019/20, hyn wedi ei nodi a'r broses wedi cael ei gwblhau erbyn 2020/21 a nodyn i gofio wneud yn flynyddol gan y clerc yn ystod cyfarfod Chwefror.
-Blwch 12, Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Angen cadarnhau fod gan y cyngor Rheolau Sefydlog a rheoliadau ariannol.
Angen cadarnhau fod y cyngor wedi dilyn ac adolygu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol.
Wedi sicrhau fod y cyngor wedi dirprwyo yn briodol ei gyfrifoldebau i bwyllgorau.
-Gorchmynion Sefydlog a Rheoliadau Ariannol
Cafodd rhain ei mabwysiadu yn cyfarfod blynyddol 5 Mehefin 2017 ac adnewyddu'r wybodaeth yn ystod cyfarfod 14 Mai 2018.

*ME angen gwirio gyda'r archwilwyr fod y camau uchod yn ddigonol a beth sydd angen ei wneud nesaf.*

**7. Gwybodaeth**

1. DU Construction
   Ebost, mapiau a llyniau wedi ei gyrru i ofyn am ffens a giat o fewn y cae chwarae gan y cwmni fel rhan o prosiect yn sgil datblygiad safle'r Marcwis. DU Construction am ystyried y cais.

2. Virginia Crosbie AS Ynys Môn
   Llythyr gwybodaeth

   *Llythyr wedi ei nodi*

3. Pwyllgor Ardal Ynys Môn – Un Llais Cymru
   Cyfarfod 7yh 12 Tachwedd 2020 (Star Leaf remote conferencing software)
   Manylion wedi ei pasio i HE (cynrychiolydd CCR)
   *HE am geisio mynychu*

4. Partneriaeth Gogledd Môn
   AMJ a GM wedi mynychu cyfarfod 21 Hydref ar rhan CCR, cyfarfod nesaf ar 25 Tachwedd 2020.
   *GM yn nodi fod trafodaeth wedi bod am cyfansoddiad cyfarfodydd y partneriaeth*

5. Cyngor Sir Ynys Môn
   Penderfyniad gan Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i godi £35 y flwyddyn am wasanaeth casglu sbwriel biniau gwyrdd bob pythefnos.
   *Pryder ynghlyn a'r gost yma wedi ei nodi, gyda'r ffi yn codi swm cymharol fach i'r Cyngor Sir, gyda effaith mawr ar gasglu sbwriel.*

6. Diolchiadau
   Capel Parc, Gorslwyd, Eglwys Llandyfrydog, Clwb Fferwmyr Ifanc Rhosybol, Ty Gobaith, Cylch Meithrin a Clwb hamdden Rhosybol wedi diolch am y cyfraniadau ariannol sydd wedi ei dderbyn gan y cyngor.

7. Arwydd Newydd yn Penygraigwen
   AMJ wedi rhoi cais i fewn gyda Priffyrdd am arwydd fod y lon angen arwydd nad oes ffordd drwy'r pentref. CSYM am drefnu arwydd yn y cyffordd.

8. Sul y Cofio 2020
   Canllawiau yn gadael hyd at 30 o bobl tu allan gyda pellter cymdeithasol a hylendid. Gwybodaeth ar gael isod:
   https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin?_ga=2.149405812.314432333.1604318930-2129832839.1460724687#section-53846
   Ysgol fel arfer yn trefnu'r gwasnanaeth, AMJ am drefnu dod a'r popis i ME dosbarthu, 1 i Rhosybol ac 1 i Parc.

**8. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

- FPL/2019/322
  Christ church, Rhosybol (ebost 02.11.20)
  Cais llawn ar gyfer newid defnydd eglwys i annedd gyda adeiladu mynedfa cerbydau newydd

  Rhagor o wybodaeth wedi ei dderbyn ynghlyn a'r cais. Gwrthwynebiadau wedi ei gyrru ar rhan CCR yn flaenorol ynghlyn a'r cais.
  Sylwadau erbyn 19 Tachwedd 2020

*AMJ yn nodi nad yw yn medru cefnogi'r cais pan mae'n mynd i'r Peyllgor Cynllunio*
*Gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned yn gryf yn erbyn y cais yma, oherwydd nifer o rhesymau:*
*Mae'r tir consegredig yn mynd o gwmpas yr adeilad, gyda beddi yn agos iawn. Mae diffyg parch*
*Pryder am draeniau yn yr adeilad ac unrhyw effaith o wait har hyn ar y tu allan yn enwedig i'r beddi.*
*Dim modd ehangu'r mynedfa oherwydd mae'r beddi yn amgylchynnu'r eglwys a hefyd beddi wrth y giat.*
*Oso es angladd yno ar hyn o bryd mae'r parcio yn beryg.*
*ME i basio'r gwrthwyniab ymlaen i'r adran cynllunio.*

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- Dim

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Cloc y Pentref – Dafydd Jones £200 am flwyddyn o cynnal a chadw. - TRYSGLWYN
b) Costau Llogi Neuadd Gymunedol Rhosybol yn ystod 2019/20 £80.
*c)* Cyfraniad blynyddol tuag at Neuadd Gymunedol Rhosybol £1000 am 2020/21. – TRYSGLWYN

*Pawb yn gytun i dalu.*

10. **Unrhyw Fater Arall**

*1. GM – Gwynfryn, drych wedi ei rhoi yn y cyffordd, ond ydy hi'n bosib cael drych ychwanegol i edrych yr ochr arall?*

*RH yn cytuno, gan ei bod yn cyffordd peryglus.*

*AMJ am holi adran cyffordd am drych dwy ffordd.*

*2. RH – Rhosybol – Baw Ci – problem gyda baw ci ar y llwybr, er fod arwydd yno. ME am holi CSYM pryd bydd y dosbarthwyr bagiau baw ci yn cael ei gosod.*